

Dirprwy Comisiynydd Cymru – Effaith Gymunedol

Pwrpas y Rôl: I gefnogi Rhaglen Comisiynydd Cymru gydag arweinyddiaeth a datblygiad strategol ardal Effaith Gymunedol y rhaglen, i sicrhau ei bod yn ddull allweddol o gyflwyno'r rhaglen gytbwys.

Yn gyfrifol i: Comisiynydd Cymru Rhaglen

Prif gysylltiadau:

- Tîm Comisiynydd Rhaglen ScoutsCymru
- Aelodau timau Rhanbarth sy'n gyfrifol am effaith gymunedol
- Tîm Arweinyddiaeth ScoutsCymru
- Uwch wirfoddolwyr a staff Pencadlys y DU
- Partneriaid Effaith Gymunedol
- Sefydliadau ieuenctid statudol a gwirfoddol eraill

Cysylltiadau allanol: Fel y cytunwyd gyda'r Prif Gomisiynydd a Chomisiynydd Cymru Rhaglen

Tasgau allweddol:

- Chwarae rhan weithgar yn nhîm craidd Rhaglen ScoutsCymru gan gynnwys rheoli prosiectau fel rhan o gynllun gwaith y Rhaglen
- Nodi blaenoriaethau o fewn Effaith Gymunedol sydd angen cefnogaeth a datblygiad ar lefel ScoutsCymru, gan gynnwys cefnogi adnoddau a chefnogaeth leol
- Cyfrannu at gyflwyno Cynllun Strategol ScoutsCymru 2018-23
- Cyfrannu at gyfarfodydd cenedlaethol a chyfarfodydd y DU yn ôl yr angen
- Adeiladu perthynas a datblygu partneriaethau gyda chyrrff allanol perthnasol
- Annog grymuso pobl ifanc wrth lunio a chymryd rhan mewn gweithgareddau Effaith Gymunedol
- Datblygu a chynnal perthynas waith dda a cheisio cysylltiadau yn fewnol ac allanol i Sgwtio yng Nghymru
- Unrhyw dasgau eraill fel y cytunwyd gyda Chomisiynydd Cymru Rhaglen

Isafswm ymrwymiad amser: Ar gyfartaledd, 4 penwythnos llawn neu benwythnos rhannol y flwyddyn, ynghyd â 4 awr y mis

Manyleb person

Sgiliau

Yn gallu:

- cyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig
- arwain a rheoli pobl o bell ac mewn amgylchedd gwirfoddol
- defnyddio technoleg fodern i gyflawni ystod o dasgau
- ysbrydoli ac ysgogi unigolion
- cysylltu ag oedolion a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau
- cyfrannu at ddatblygiadau strategol a nodi camau arferol i gyflawni amcanion strategol
- darparu digon o amser ar gyfer y rôl gan gynnwys ymrwymiad ganol wythnos ac ar y penwythnos

Profiad

Profiad o:

- arwain a chefnogi pobl yn effeithiol
- gweithio gydag eraill ar draws ardal ddaearyddol eang
- gweithio ar lefel strategol mewn gallu proffesiynol neu wirfoddol
- gweithio gyda phartneriaid allanol ac adeiladu perthynas waith effeithiol